COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 25 MEDI 2024 16:00

Presennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | JPD Blundell |
| E L P Caparros | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | M J Evans | N Farr | J Gebbie |
| RM Granville | GH Haines | D T Harrison | M L Hughes |
| D M Hughes | M R John | M Jones | M Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | JC Spanswick | JH Tildesley MBE |
| HM Williams | E D Winstanley | | |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | S J Bletsoe | C L C Davies | P Ford |
| S J Griffiths | RM James | MJ Kearn | W J Kendall |
| R J Smith | I M Spiller | T Thomas | G Walter |
| A Wathan | A Williams | AJ Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | T Wood | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cynghorwyr PJ Jenkins, WR Goode, y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

Datganiadau o Ddiddordeb

Cyflwynwyd y datganiadau o fuddiant personol canlynol:-

Y Cynghorydd E Winstanley - Eitemau 6, 8, 10 ac 11, fel un o gyflogeion Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen.

Y Cynghorydd R Williams - Eitem 8 gan ei fod wedi bod yn ymgyrchu am gryn amser dros bont ffordd Pencoed, ac mewn perthynas ag adnewyddu Llyfrgell Pencoed, y cyfeirir ato yn yr adroddiad. Eitem 11 gan nad oedd yn sicr a oedd yn parhau i gael Lwfans Tanwydd y Gaeaf.

Y Cynghorydd H Bennett - Eitemau 6 ac 8, fel cyflogwr yn BAVO, y sonir amdano yn yr adroddiadau sy’n ymwneud â’r eitemau hyn.

Y Cynghorydd M Evans - Eitem 8 gan ei fod wedi bod yn ymgyrchu am gryn amser dros bont ffordd Pencoed, ac mewn perthynas ag adnewyddu Llyfrgell Pencoed, y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

Y Cynghorydd W Kendall - Eitem 11, ni roddwyd rheswm.

Y Cynghorydd J Pratt - Eitem 6 gan fod aelod teulu yn derbyn Gofal Cymdeithasol.

Y Cynghorydd R Smith - Eitem 6 gan fod aelod teulu yn derbyn Gofal Cymdeithasol ac oherwydd ei fuddiant mewn cwmni sy’n derbyn cyllid gan BAVO.

Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Eitem 6 gan fod aelod teulu yn derbyn Gofal Cymdeithasol.

**45. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor dyddiedig 15 Mai a 24 Gorffennaf 2024 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 46. Derbyn cyhoeddiadau gan:

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Aelodau Cabinet canlynol a'r Prif Weithredwr (ni wnaed/nid oedd angen gwneud unrhyw benderfyniadau):-<br><br>• Y Maer;<br>• Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd;<br>• Y Prif Weithredwr |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 47. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (ni wnaed/nid oedd angen gwneud unrhyw benderfyniadau) |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 48. Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno Adroddiad Blynyddol y 'Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' ar gyfer 2023/24 i'r Cyngor a gofyn i'r Aelodau ei gymeradwyo; gyda'r adroddiad hwnnw'n cynnwys dadansoddiad o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac amlinelliad o'r camau |

| | |
|---|---|
| | nesaf.<br><br>Pwysleisiodd y Dirprwy Arweinydd, er gwaethaf pwysau ariannol dwys ar Wasanaethau Cymdeithasol, fod gan y Cyngor gyfleusterau rhagorol ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion, a bod y Dirprwy Arweinydd wedi cwrdd â Mario Cleft a Fforwm Gofal Cymru yn ddiweddar, a oedd yn canmol tîm Gwasanaethau Oedolion BCBC, gan ychwanegu bod y gweithlu yno yn egnïol ac yn gyfeillgar;<br><br>Cyflwynodd aelodau nifer o ymholiadau a sylwadau fel rhan o'r drafodaeth, gan gynnwys y canlynol:-<br><br>• Nodwyd yn y cyflwyniad bod lleihad o 5% wedi bod, o 29% i 24%, mewn asesiadau ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth, ond fod peth oedi sylweddol o hyd wrth brosesu pecynnau gofal cymdeithasol ac asesiadau gofal cymdeithasol, a bod hynny, yn y pen draw, wedi arwain at oedi wrth dderbyn pobl i'r ysbyty. O ganlyniad, gofynnodd aelodau a fyddai'n bosib iddynt gael manylion am ffigyrau yng nghyd-destun yr uchod wedi'r cyfarfod. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y byddai'n darparu'r wybodaeth hon i'r aelod, cyn gynted ag y bo modd;<br>• Roedd aelod yn falch o nodi bod recriwtio a chadw staff wedi gwella y llynedd o gymharu ag adroddiadau blynyddoedd blaenorol. Mewn perthynas â'r rhan o'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at Risgiau a Phroblemau, gofynnodd, o gymryd y pwysau ariannol allan ohoni, pa feysydd o'r rhain oedd yr achosion pryder mwyaf. Fodd bynnag, roedd yr aelod yn cydnabod bod yr adroddiad yn darllen yn gadarnhaol ar y cyfan;<br>• Nododd aelod fod gorwariant y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwella (gorwariant o £11.827m yn flaenorol), sy'n sefyll ar oddeutu £6m ar hyn o bryd. Nododd ymhellach fod y gwasanaeth yn gwella drwy wahanol ffyrdd o weithio a mwy o arloesedd. Fodd bynnag, roedd hi'n pryderu y byddai'r sefyllfa bresennol yn negyddu'r gwelliannau a wnaed (i'r gwasanaeth) pe na baent yn cael sylw cyn bo hir.<br>• Pwysleisiodd Aelod fod y 'twll du' £22b yn economi y DU wedi cael effaith negyddol iawn ar sefydliadau, fel awdurdodau lleol, cyllidebau - yn enwedig rhai sy'n ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol. Gallai cynnig y Cyngor i ddiddymu gwasanaethau allweddol eraill, fel Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol gael effaith negyddol ar faes Gwasanaethau Plant y Gyfarwyddiaeth ymhellach;<br>• Dywedodd yr Arweinydd, er bod toriadau wedi bod i gyllideb Addysg y Cyngor yn ddiweddar, roedd hyn wedi cael ei ddiogelu (e.e ar gyfer ysgolion) yn ystod blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol nawr yn wynebu sefyllfa lle'r oedd angen i doriadau cyllideb gael eu gwneud mewn modd teg a chymesur, ar draws pob Cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth. Atgoffodd |

| | |
|---|---|
| | yr aelodau fod y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a oedd yn cefnogi gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd wedi cael nifer sylweddol o doriadau yn ystod yr ychydig o flynyddoedd diwethaf. Ychwanegodd ei fod yn falch o weld o'r adroddiad i'r Cyngor, bod gwelliannau yn cael eu gwneud mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol 2023/24 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

**49. Offer Cyfalaf Torri Glaswellt Dinesig a Gwledig**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Pennaeth Gweithrediadau - Cymunedau adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad ar ddarparu Gwasanaeth Torri Glaswellt Dinesig a Gwledig, ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor am ddiwygiad arfaethedig i'r Rhaglen Gyfalaf i ymgorffori cyllideb gyfalaf o £340,000, i'w throsglwyddo o gyllideb gyfalaf bresennnol Raven's Court.<br><br>Gwnaeth Aelodau a Swyddogion arsylwadau ar yr adroddiad, a oedd yn cynnwys:<br><br>• Adroddodd y Cabinet y gwneir toriadau effeithlonrwydd wrth symud ymlaen, gyda gwasanaeth mewnol na fyddai'r Cyngor o reidrwydd yn ei gynnig pe byddai'r contract yn parhau i gael ei roi i nifer o gontractwyr allanol sy'n torri gwair mewn gwahanol ardaloedd o'r Fwrdeistref Sirol. Mae diffyg adnoddau Cyngor yn golygu nad yw gwasanaethau torri gwair gan ddarparwyr allanol o'r fath yn cael ei fonitro yn ddigonol i sicrhau bod torri gwair yn digwydd mor aml ag y dylai ddigwydd mewn lleoliadau penodol. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at gwynion gan drigolion yn yr ardal honno;<br>• Gwnaeth aelodau sylw nad yw'r adroddiad yn cynnwys manylder digonol o ran cymhariaeth mewn costau rhwng cadw'r contract yn allanol yn hytrach na'i ddychwelyd i fod yn fewnol. Mae £340k yn swm sylweddol o refeniw cyfalaf fel cost i wneud newid o'r fath mewn trefniadau contract. Mae angen i'r fachnad fod yn destun 'profion' pellach;<br>• Adroddodd y Cabinet na fydd y gwasanaeth mewnol yn cynnwys torri gwair yn unig, ond gwaith |

arall fel codi sbwriel a rheoli traffig hefyd. Bydd yn dod â'r holl feysydd gwyrdd ynghyd yn hytrach na chynnwys torri gwair yn unig fel y mae'r ddarpariaeth allanol gyfredol yn ei ddarparu. Bydd hyn yn dod ag arbedion yn y tymor hir ac yn canolbwyntio ar wella materion ehangach fel yr amgylchedd a bioamrywiaeth;

- Gan fod gennym nifer o swyddi gwag yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, ymholodd Aelodau p'un a oedd Swyddogion yn hyderus o ran sicrhau y byddwn yn gallu recriwtio ar gyfer unrhyw swyddi a fwriedir i gefnogi'r gwasanaeth mewnol newydd;
- Ymholodd Aelodau am yr amcangyfrif arbedion costau a'r enillion ar fuddsoddiad;
- Ymholodd Aelodau p'un a oedd meysydd gwasanaeth eraill yn y Cyngor lle gallai'r amcangyfrif o £340k ar gyfer prynu offer gael ei leoli'n well o'r gyllideb gyfalaf Raven's Court, a fydd hefyd yn darparu enillion gwell;
- Eglurodd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar yr amser hwn, gan fod angen i'r Cyngor brynu'r offer angenrheidiol ar gyfer torri gwair y flwyddyn nesaf a gwaith cysylltiedig er mwyn darparu'r gwaith yn fewnol;
- Adroddodd yr Arweinydd fod chwistrellu chwyn wedi cynyddu'n sylweddol mewn cost drwy gonractwyr allanol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y bydd hyn yn cael ei gynnwys o fewn y gwasanaeth mewnol, ac o ganlyniad yn gwneud arbedion i'r Awdurdod;
- Awgrymodd Aelodau y gallai'r cynnig arwain at arbedion effeithlonrwydd o ddod ag ef yn fewnol, gan fod anawsterau yn aml o ran gwybod pwy sy'n berchen ar rai ardaloedd glaswellt a mannau agored, ac felly gallai contractwyr allanol fod yn torri gwair tir preifat yn hytrach na thiroedd a gynhelir gan y Cyngor;
- Ymholodd Aelodau p'un a oedd is-gontractio allanol wedi cael ei brofi ar y farchnad er mwyn sicrhau nad yw cynnal y contract yn allanol yn opsiwn rhatach na dod ag ef yn fewnol.

Gan fod rhai Aelodau yn erbyn y cynigion yn yr adroddiad, cafodd cynnig ei wneud, ei eilio a'i gytuno y byddai pleidlais electronig yn digwydd ar argymhellion yr adroddiad.

Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:-

| <u>O blaid</u> | <u>Yn erbyn</u> | <u>Ymatal</u> |
|---|---|---|
| 28 | 18 | 0 |

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cytuno ar y cynnig i drosglwyddo £340,000 yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer darparu gwasanaeth

| | |
|---|---|
| | Torri Glaswellt Trefol a Gwledig yn fewnol, gydag chyllid yn cael ei drosglwyddo o gyllideb bresennol Rhaglen Gyfalaf Ravenscourt. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 50. Hunan-asesiad 2023/24

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn cynnwys trydydd hunan-asesiad y Cyngor, ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad gerbron y Cyngor heddiw hefyd wedi cael ei ystyried gan y Cabinet ddoe.<br><br>Roedd ef yn teimlo y byddai cwmpas i adroddiadau o'r fath yn y dyfodol, i leihau neu addasu targedau penodol, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud ag amcanion llesiant y Cyngor - efallai drwy leihau rhai o'r rhain.<br><br>Ychwanegodd y gallai fod angen edrych ymhellach ar ddangosyddion perfformiad ac ymrwymiadau, er mwyn sefydlu a ydynt yn briodol ac yn fesuradwy. Daeth yr Arweinydd i gasgliad drwy ddatgan pwysigrwydd rhoi barn agored ac onest ar ein perfformiad ein hunain fel rhan o'r Hunan-Asesiad.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 168 o'r adroddiad ac at bwysigrwydd ymgynghori gyda'n trigolion a choladu eu hadborth ar agweddau o'r adroddiad, fel y gallwn fwydo unrhyw gyfraniadau cadarnhaol i bolisïau Cyngor yn y dyfodol a gwella darpariaeth gwelliannau perfformiad.<br><br>Gofynnodd Aelod un cwestiwn olaf, ynghylch tudalen 157 o'r adroddiad, roedd perfformiad wedi'i raddio'n dda o ran 'cymunedau cymoedd sy'n ffynnu'. Gofynnodd pa ddadansoddiad oedd wedi ei gynnal i gael y farn honno.<br><br>Cafwyd crynodeb gan y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad o'r amcanion, yr ymrwymiadau a'r dangosyddion perfformiad sy'n ffurfio'r farn honno. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:<br><br>• Yn cymeradwyo'r hunan-asesiad drafft yn Atodiad 1 yr adroddiad<br>• Yn cymeradwyo'r crynodeb perfformiad yn Atodiad 2. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

**51. Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Hysbysodd y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, y Cyngor am adroddiad gwybodaeth i'w nodi, a gyhoeddwyd ers y cyfarfod diwethaf a drefnwyd.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

**52. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | 1. Y Cynghorydd T Thomas i'r Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd ac Amgylchedd (ymateb eisoes wedi'i rannu ag aelodau)<br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas<br>2. Y Cynghorydd R Penhale-Thomas i'r Aelod Cabinet – Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai (ymateb eisoes wedi'i rannu gydag aelodau)<br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Penhale-Thomas |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 53. Rhybudd o Gynnig a Gyflwynwyd gan y Cynghorydd Mark John

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Amlinellwyd Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd John, ac roedd y geiriad fel a ganlyn:-<br><br>‘Mae'r cyngor hwn yn edifar am benderfyniad Llywodraeth San Steffan i dorri lwfans tanwydd y gaeaf a fydd yn gadael llawer o'r rhai mwyaf bregus yn ein Bwrdeistref Sirol gyda'r penderfyniad anodd iawn o ddewis rhwng bwyta neu gynhesu eu cartrefi.<br><br>Dymunwn felly wahodd pensiynwyr i'n swyddfeydd Dinesig yn Stryd yr Angel yn ystod misoedd y Gaeaf lle gallant fod yn sicr o le cynnes, diogel a diodydd poeth.<br><br>Rydym yn rhoi'r awdurdod i Swyddogion wneud trefniadau ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor."<br><br>Trafododd aelodau y cynnig a chafodd ei gynnig a’i eilio’n briodol, i'w addasu fel a ganlyn:-<br><br>**"Mae'r cyngor hwn yn edifar am benderfyniad Llywodraeth San Steffan i dorri lwfans tanwydd y gaeaf a fydd yn gadael llawer o'r rhai mwyaf bregus yn ein Bwrdeistref Sirol gyda'r penderfyniad anodd o ddewis rhwng bwyta neu gynhesu eu cartrefi.**<br><br>**Felly, o ganlyniad, rydym yn gwahodd unrhyw bobl hŷn y mae hyn yn effeithio arnynt i fanteisio ar un o’r nifer o fannau cymunedol lleol, fel canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a hybiau cynnes sy’n cael eu cefnogi gan y Cyngor hwn. Rydym hefyd yn cydnabod bod credyd pensiwn yn fudd-dal sy’n cael ei danhawlio ac rydym yn annog ein trigolion i ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael drwy ein hasiantaethau cymorth a gomisiynir, gyda nifer ohonynt yn darparu gwasanaethau mwyafu incwm i gynnig cymorth a chwblhau ffurflenni perthnasol. Bod y Cyngor hwn yn defnyddio ei sianelau cyfathrebu ac ymgysylltu i godi ymwybyddiaeth o’r broses ymgeisio am gredyd pensiwn.**<br><br>**Byddwn hefyd yn cyfeirio unrhyw un sy’n cael trafferth gyda’u biliau gwresogi at asiantaethau a phartneriaid dibynadwy’.**<br><br>Gan fod rhai Aelodau yn erbyn y cynnig diwygiedig yn uniongyrchol uchod, cafwyd pleidlais, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:- |

| | |
|---|---|
| | O blaid (y diwygiad) Yn erbyn Ymatal<br><br>32 12 0<br><br>PENDERFYNWYD: Y byddai’r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig uchod mewn print bras yn cael ei gymeradwyo, gan gymryd lle’r cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd John. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

**54. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

**55. Eithrio’r Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nid oedd y cofnodion a’r adroddiad yn ymwneud â’r eitemau canlynol i gael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fe'i y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad)(Cymru) 2007.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynodd y Cyngor, yn unol â'r Ddeddf, ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd wedi'u heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 56. Cymeradwyo Cofnodion wedi'u Heithrio

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 24 Gorffennaf 2024, a oedd wedi'u heithrio, fel cofnod gwir a chywir |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2024 |

## 57. Costau Dileu Swyddi ac Ymddeol yn Gynnar

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Mae cynnwys y cofnod hwn wedi'i eithrio ac felly nid yw'n cael ei gyhoeddi |
| Dyddiad y Penderfyniad | 25 Medi 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 19:30